# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Willowdale**

**Willowdale Residential Homes Ltd**
**112 Ffordd Caer**
**Bwcle**
**CH7 3AH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

10 Awst 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Willowdale

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Willowdale Residential Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn mwynhau byw yn y cartref ac yn canmol y staff, dogn ac ansawdd y bwyd a ddarperir a'r amrywiaeth o adloniant a gweithgareddau ysgogol sydd ar gael. Mae'r llety'n diwallu anghenion y bobl gan fod digon o le ynddo gydag ardaloedd cymunol amrywiol i gwrdd a chymdeithasu â'i gilydd. Mae gwedd bersonol ar yr ystafelloedd ac maent wedi'u dodrefnu'n gyfforddus i ddiwallu anghenion y bobl ond mae angen eu hailaddurno ynghyd â rhai mannau cymunol.

Mae dewis yn cael ei barchu ac mae barn y bobl yn cael ei cheisio yn ystod cyfarfodydd i'r preswylwyr a gynhelir yn aml. Mae'r bobl yn dewis ble maen nhw'n bwyta a beth maen nhw'n ei fwyta, a sut maen nhw'n cyflawni eu trefniadau dyddiol arferol. Mae'r staff yn ofalgar ac yn barchus, gan ryngweithio'n gadarnhaol ac yn siriol gyda'r preswylwyr. Fodd bynnag, mae lefelau staffio yn annigonol yn gyson ac mae dibyniaeth ar staff asiantaeth dros dro weithiau'n effeithio ar ba mor amserol ac effeithiol y caiff cymorth ei ddarparu. Nid oes gan staff asiantaeth yr wybodaeth ofynnol bob amser i sicrhau bod gweithdrefnau symud a thrin cywir yn cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion y bobl yn ddiogel. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad yn gofyn bod lefelau staffio yn briodol i ddiwallu anghenion y bobl bob amser, a bod yr holl staff, gan gynnwys staff asiantaeth, wedi'u hyfforddi'n ddigonol ac yn gymwys i symud a thrin.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth fewnwelediad da o sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu, ac yn cynnal archwiliadau rheolaidd o wahanol elfennau o ofal ac Adolygiad Ansawdd Gofal bob chwe mis. Dosberthir arolygon i berthnasau a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth i ganfod eu barn ac i nodi unrhyw newidiadau neu welliannau sydd eu hangen.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y cartref. Maent yn dewis sut a ble i dreulio eu diwrnod yn y cartref ac ar y tir o'i gwmpas. Mae'r bobl yn cael dewis sut i gyflawni eu trefniadau dyddiol, gan gynnwys codi yn y bore, mynd i'r gwely gyda'r nos a ble i fwyta eu prydau. Mae'r bobl yn cael dewis o blith opsiynau prydau amrywiol ac maent yn mwynhau'r bwyd yn fawr iawn. Mae cynlluniau personol yn cofnodi hoffterau a chas bethau'r bobl ac yn cynnig darlun clir o gefndir, hanes a diddordebau blaenorol y bobl.

Gofelir am les corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol pan fo angen. Gwneir apwyntiadau gydag amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol pan fydd angen cyngor ac arweiniad ar y bobl. Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu hadolygu'n fisol er mwyn gallu nodi unrhyw newidiadau yn gyflym. Prynwyd cyfarpar i wella cysur a diogelwch y bobl, ac mae rhai o'r bobl wedi dod â'u heitemau o ddodrefn eu hunain gyda nhw megis hoff gadair freichiau. Mae pobl yn cael hyfforddiant mewn pynciau perthnasol i helpu i sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol, er inni weld bod angen hyfforddiant symud a thrin, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer staff asiantaeth dros dro. Mae argaeledd staff yn cael ei effeithio ar hyn o bryd gan salwch, absenoldeb arall a rhai gweithwyr sydd wedi ymddiswyddo. Nid yw lefelau staffio bob amser yn ddigonol ac mae defnyddio staff asiantaeth dros dro, sy'n anghyfarwydd ag anghenion a dymuniadau'r bobl, yn anghenraid yn aml. Mae'r rheolwr yn ceisio recriwtio mwy o staff ac mae wedi hysbysebu ar gyfer staff mewn rolau amrywiol.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y rhan fwyaf o arferion gwael, cam-drin ac esgeulustod gan fod y staff wedi'u hyfforddi ym maes diogelu, ac mae polisïau ar waith i'w harwain. Mae digwyddiad y rhoddodd y rheolwr wybod i ni yn ei gylch, a digwyddiad a welsom yn ystod ein harolygiad, yn dangos nad yw pob aelod o staff asiantaeth yn gwbl gymwys mewn symud a thrin, sy'n ofynnol er mwyn sicrhau arferion diogel yn llawn. Mae'r rheolwr yn archwilio ffyrdd o sicrhau bod holl staff yr asiantaeth yn ymwybodol o anghenion y bobl cyn iddynt weithio. Mae cyfarfodydd dyddiol rhwng uwch aelodau o staff a'r staff gofal yn rhoi cyfleoedd i drafod unrhyw bryderon a rhannu gwybodaeth newydd am unrhyw newidiadau yng ngofynion gofal y bobl.

Mae'r cartref yn darparu llety sydd â digon o le ac amrywiaeth o fannau cymunol i'r bobl eistedd a threulio eu diwrnod. Mae gan bobl ystafelloedd sydd wedi'u dodrefnu yn ôl eu chwaeth ac yn addas i'w hanghenion; mae angen ailaddurno rhai o'r ystafelloedd hyn. Mae seddi a lloches i'w cael yn y gofod y tu allan i'r rhai sydd am dreulio amser yn yr iard allanol dawel. Mae'r cartref ei hun yn ddiogel gyda bysellbadiau â chod ar y drws mynediad a rhaid i bob ymwelydd fewngofnodi.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth o ansawdd sydd ei angen arnynt gan fod eu cynlluniau personol yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn ystyried eu dymuniadau, eu hoffterau, a'u hanghenion corfforol, meddyliol ac emosiynol. Gwelsom gynlluniau personol sy'n rhoi darlun go iawn o'r bobl, eu bywydau, eu hanes a'u hanghenion a'u hoffterau. Gwnaethom siarad â gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld a gytunodd fod cynlluniau personol mewn trefn dda, yn hawdd eu darllen ac mae'r adran hanes bywyd yn rhoi darlun go iawn o'r person. Mae cofnodion yn dangos bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i'w cadw'n fanwl gywir. Ystyrir pob adran o'r cynllun bob mis ac yna cynhelir adolygiad cyffredinol bob tri mis i'w cadw'n gyfredol ac yn fanwl gywir. Mae uwch aelodau o staff yn cwblhau asesiadau risg ac yn rhoi mesurau ar waith i amddiffyn y bobl. Mae cynlluniau gofal yn rhoi cyfarwyddyd i'r staff ar sut i gefnogi unigolion. Fodd bynnag, nid yw rhai staff asiantaeth, nad ydynt yn cael eu cyflogi'n barhaol yn y cartref, bob amser yn gyfarwydd â'r rhain; o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn darparu gofal a chymorth yn y ffordd y mae ei angen.

Mae cofnodion a chofnodion cyfarfodydd yn dangos bod y bobl yn cael eu diddanu a'u hysgogi mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gwnaethom siarad â'r bobl a gadarnhaodd eu bod yn cael pleser mawr o amrywiaeth o weithgareddau fel gwneud pwdinau y gallant wedyn eu bwyta, dathlu digwyddiadau a dod ag anifeiliaid anwes y teulu i mewn. Mae teithiau yn cael eu cynllunio gan ddefnyddio bws mini'r gwasanaethau. Dywedodd y bobl wrthym am y gwasanaeth, "*Dwi wrth fy modd bod yma a dwi'n caru'r bobl*" a "*mae'r bwyd yn wych".* Gwelsom y bobl yn mwynhau gwahanol frecwastau o'u dewis; cafodd un wy a chig moch, grawnfwyd gafodd un arall ac wy ar dost gafodd un arall. Dywedodd y bobl wrthym beth yr oeddent yn ei gael ar gyfer eu cinio, ac roeddent yn cofio cael pryd Tsieineaidd tecawê ar y penwythnos. Gwelsom y staff yn ymateb yn amyneddgar i'r bobl, gan ryngweithio â charedigrwydd a pharch.

Gofelir am les corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal sy'n gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol. Mae cofnodion yn dangos tystiolaeth bod apwyntiadau'n cael eu trefnu gyda meddygon teulu, deintyddion, optegwyr, ac mae nyrsys ardal yn ymweld â'r cartref. Gwelsom sut mae un person wedi gwella'n rhyfeddol yng ngofal y cartref, gan fwynhau ansawdd bywyd llawer gwell ers iddo gael ei dderbyn. Ceisiwyd cyngor arbenigol ar gyfer person arall i wella ei symudedd a chaniatáu iddo barhau mor annibynnol â phosibl. Prynwyd cyfarpar i wella cysur a diogelwch pobl, ac mae rhai pobl wedi dod â'u heitemau eu hunain o ddodrefn gyda nhw megis hoff gadair freichiau sy'n gogwyddo.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion i reoli'r risg a berir gan heintiau. Gwelsom fod mesurau'n cael eu cymryd i leihau'r risg o coronafeirws ac mae'r staff yn gwisgo masgiau ac yn defnyddio hylif diheintio dwylo. Gwelsom gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio gan staff yn eu gwaith a gofynnwyd i ymwelwyr am eu statws COVID-19.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth mewn amgylchedd a lleoliad sy'n addas i ddiwallu anghenion y bobl. Mae yna digon o le i'r bobl symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau ynghylch ble maent am dreulio eu diwrnod. Mae soffas a chadeiriau breichiau ar gael yn y lolfa gartrefol. Gwelsom y bobl yn y lolfa yn gwylio'r teledu, ac mae cofnodion yn dangos bod gweithgareddau'n cael eu cynnal yma hefyd. Mae cyfleusterau bwyta ar wahân ar gael i'r rheini sydd am ei ddefnyddio ond gall y bobl ddewis bwyta yn eu hystafelloedd gan fod ganddynt eu byrddau eu hunain. Mae technoleg cynorthwyydd rhithwir yn galluogi pobl i gysylltu â pherthnasau os dymunant; mae gan y cartref fwrdd cyffwrdd cyfrifiadurol y gallant ei ddefnyddio. Mae lifftiau i gael mynediad i'r llawr cyntaf a darperir cyfarpar i alluogi a gwella symudedd y bobl.

Mae gan bawb eu hystafell wely ei hunain ac mae cyfleusterau en-suite mewn rhai ohonynt. Gwelsom fod angen ailaddurno rhai ystafelloedd gan fod ôl treulio ar y waliau a'r gwaith coed ac mae angen ailosod rhai lloriau. Mae'r darparwr a'r rheolwr yn ymwybodol o'r gwelliannau hyn sydd eu hangen ac yn bwriadu rhoi sylw iddynt. Mae ystafelloedd yn cael eu hailaddurno pan fyddant yn dod yn wag, fel eu bod yn lân ac yn olau ar gyfer unrhyw breswylwyr yn y dyfodol. Darperir cyfarpar arbennig, megis gwelyau addasadwy pan fo angen; gwelsom gymhorthion arbennig i wella annibyniaeth pobl. Mae ystafelloedd yn cael eu had-drefnu i ddarparu ar gyfer anghenion cyfarpar y bobl tra'n sicrhau eu bod yn rhydd i symud o gwmpas yn eu hardal bersonol. Gwelsom fod y gegin yn lân ac wedi'i threfnu'n dda; mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi dyfarnu sgôr o bump i'r gegin yn ddiweddar, sef y gorau y gall fod.

Mae dwy ystafell ar gyfer storio meddyginiaeth, ac mae un ohonynt hefyd yn rhoi mynediad i giwbicl toiled ar gyfer staff. Gan nad oes gan y ciwbicl ei fasn golchi dwylo ei hun a bod yn rhaid i staff ddefnyddio'r basn yn yr ystafell feddyginiaeth ar gyfer golchi dwylo, ni ellir defnyddio'r toiled hwn mwyach. Mae'r rheolwr wedi gosod arwydd 'dim i'w ddefnyddio' ac mae'n mynd i osod clo i atal neb rhag ei ddefnyddio hyd nes y gellir gosod basn arall yn y ciwbicl toiled. Mae'r tiroedd yn addas ar gyfer y bobl sy'n byw yn y cartref ar hyn o bryd. Mae dodrefn gardd yno a lloches i'r bobl eistedd oddi tano. Gwnaethom siarad â'r preswylwyr a ddywedodd eu bod yn mwynhau mynd allan i'r iard allanol breifat hon.

Mae gan y darparwr gwasanaeth fesurau ar waith i nodi a lliniaru risgiau a chynnal cyfleusterau ac offer. Gwelsom asesiadau risg ar gyfer y cartref ac ar gyfer unigolion. Caiff achosion o gwympo eu monitro a'u gwerthuso i nodi themâu a gwneud rheoli risg yn fwy effeithiol. Mae gwiriadau cynnal a chadw a gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau ar gyfer dŵr, offer tân, offer trydanol, a gosodiadau trydan.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol a bod gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda. Mae rheolwr ardal yn rhoi cymorth i'r rheolwr ac mae ganddo raglen o archwiliadau y mae'n ei chwblhau bob mis i wirio a yw arferion yn ddiogel ac yn adlewyrchu polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau Adolygiad Ansawdd Gofal bob chwe mis ac yn ei ddefnyddio i lunio adroddiad ar gyfer cyfarwyddwyr y cwmni. Dosberthir arolygon i breswylwyr a'u perthnasau i ganfod pa mor fodlon yw'r bobl â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn, ac mae cyfarfodydd y preswylwyr yn gymorth pellach i gasglu barn a gwella'r gwasanaeth.

Mae gan y rheolwr ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i gyfarwyddo'r staff a chadw'r preswylwyr yn ddiogel. Mae presenoldeb rheolaidd y rheolwr yn y cartref yn rhoi digon o gyfle i'r staff drafod unrhyw faterion. Gwnaethom siarad â'r staff a gwnaethant gadarnhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynegi eu barn a'u pryderon. Maent yn derbyn goruchwyliaeth un-i-un i wirio eu hymarfer ac i rannu eu barn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith. Dywedodd un "*Dwi wrth fy modd yma. Galla i siarad â'r rheolwr pryd bynnag dwi'n dymuno".*

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth nad yw bob amser yn gallu darparu niferoedd priodol o staff sy'n ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen. Mae cofnodion staff yn dangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a bod pobl yn cael eu fetio'n briodol cyn cael eu cyflogi. Fodd bynnag, er gwaethaf ymarferion recriwtio diweddar a pharhaus, nid yw'r darparwr wedi gallu sicrhau niferoedd llawn o staff ac mae'r cartref yn aml yn brin o staff. Defnyddir staff asiantaeth dros dro yn aml, gan effeithio ar barhad staffio ac sy'n golygu nad yw'r bobl sy'n cael eu cefnogi yn gyfarwydd â'r staff. Dywedodd y bobl wrthym eu bod weithiau'n gorfod aros am gymorth ac nid ydynt bob amser yn gwybod pwy yw'r staff; dywedodd y staff wrthym fod ganddynt dîm llai yn aml ond eu bod yn cydweithio ac yn llwyddo i gyflawni'r gwaith. Esboniodd aelod arall o'r staff fod y cartref yn hysbysebu am staff ar gyfer nifer o rolau a'u bod yn aml yn gweld bod niferoedd staff yn brin.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf mewn meysydd hanfodol, fodd bynnag, nid yw staff asiantaeth bob amser yn gymwys i symud a thrin ac nid ydynt bob amser yn gyfarwydd ag anghenion y bobl. Gwelsom aelod o staff asiantaeth ar ei ben ei hun yn yr ystafell fwyta, yn ansicr ynghylch sut i gynorthwyo rhywun i symud o gadair i gadair olwyn; fe wnaeth ddechrau cynorthwyo mewn modd anghywir cyn i ni fynd i ymofyn aelod arall o staff i ymyrryd. Mae'r rheolwr yn cadarnhau na fydd unrhyw dderbyniadau pellach yn cael eu gwneud hyd nes y ceir nifer digonol o staff a gwell cysondeb. Mae anghysondeb lefelau staffio, defnydd cyson o staff dros dro a rhai aelodau o staff heb arbenigedd digonol o ran symud a thrin yn peryglu iechyd a llesiant y bobl ac felly rydym

wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn.

| Crynodeb o’r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 34 | Mae iechyd, diogelwch a llesiant pobl mewn perygl oherwydd nad oes gan y gwasanaeth nifer digonol o staff ar gael. Mae’r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth nad ydynt bob amser wedi’u hyfforddi’n ddigonol a/neu’n gymwys mewn arferion symud a thrin. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, rydym yn amlygu’r rhain fel Meysydd i’w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i’w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 01/12/2022